LANEq318

# Cyfrannu at werthuso ac addasu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at werthuso ac addasu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio. Dylech allu gwneud y gwaith hwn yn ystod pob cyfnod o ffitrwydd o waith ffordd i waith cyflym, a chyda cheffylau â lefelau ffitrwydd amrywiol, hyd at ac yn cynnwys ffitrwydd rasio.

Dylech allu gwerthuso'r gweithgareddau hyfforddiant, cael adborth am berfformiad y ceffyl a dadansoddi effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddiant.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfrannu at werthuso rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio, yn rheolaidd, yn unol ag arfer da ac amcanion cyfredol
2. cael adborth gan bersonél perthnasol ar bob agwedd yn ymwneud â rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio
3. dadansoddi effeithiau rhaglenni hyfforddiant ar y ceffylau rasio
4. cofnodi canlyniadau rhaglenni hyfforddiant ceffylau rasio
5. gwerthuso a chofnodi addasrwydd y cyfleusterau, yr offer a'r staff
6. trafod gwerthuso rhaglenni hyfforddiant y ceffyl rasio gyda'r personél perthnasol
7. adolygu ac addasu amcanion rhaglenni hyfforddiant y ceffyl rasio, lle bo angen
8. cyfathrebu'r addasiadau i raglenni hyfforddiant y ceffyl rasio i'r personél perthnasol
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pryd a pham y dylid adolygu amcanion rhaglenni hyfforddiant y ceffyl rasio
2. sut i gael adborth yn ymwneud â chynnydd a chan bwy
3. sut i werthuso'r adborth yn erbyn amcanion rhaglenni hyfforddiant y ceffyl rasio
4. effeithiau seicolegol a chorfforol hyfforddiant ar y ceffylau rasio
5. y rhesymau dros brofi gwaed a phwysigrwydd cysylltu â'r llawfeddyg milfeddygol
6. arwyddocâd adnabod y pwysau corff gorau posibl a'r defnydd o'r pontydd pwyso
7. effaith natur, oed a phrofiad ar ymddygiad ceffylau rasio
8. pam y mae'n bwysig cytuno ar addasiadau i'r rhaglen hyfforddiant gyda'r personél perthnasol
9. y cymhorthion a'r dulliau hyfforddiant a ddefnyddir
10. y cyfleusterau sy'n ofynnol, yn cynnwys porfeydd carlamu, ardaloedd carlamu pob tywydd, clwydi a ffensys
11. dulliau hyfforddiant amgen yn cynnwys; cerddwyr ceffylau a phyllau nofio
12. sut bydd rhaglen fwydo'n newid ar adegau ffitrwydd amrywiol
13. pwysigrwydd pedoli ceffylau rasio yn rheolaidd ac yn gywir
14. rheoliadau Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain a rheoliadau eraill yn ymwneud â brechiadau fel mater o drefn
15. sut i adnabod ac asesu effeithiau problemau corfforol ac ymddygiadol ar geffylau rasio a'u hagwedd at waith, a diwygio'r rhaglenni hyfforddiant yn unol â hynny
16. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
17. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Gwerthuso ac addasu rhaglen hyfforddiant ar gyfer ceffylau ar lefelau ffitrwydd amrywiol hyd at ac yn cynnwys ffitrwydd rasio, a chydag amcanion hyfforddiant gwahanol.

Gwerthuso'r gweithgareddau canlynol:

- gwaith ffordd
- gwaith cyflym
- gwaith ffitrwydd fel mater o drefn
- hyfforddi

LANEq318

Cyfrannu at werthuso ac addasu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq318 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ceffylau rasio; hyfforddiant |